



MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:	Sali Lloyd	Rhif P y myfyriwr:	1700277
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion	Lefel y Modwl (6 neu 7):*	6
Cod y modwl:*	M7X02151	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):*	70%
Arweinydd modwl:*	Helen Lewis / Gail Parker / Sarah Elsey		
Teitl yr Aseiniad:	Aseiniad ysgrifenedig o 4,500 o eiriau	Rhif yr Aseiniad (x o x):*	1/2
Dyddiad cychwyn:*	5/3/18	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:*	30.5.18
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*	27.6.18		

Cyfeirnod:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnod i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, <u>teitl y llyfr</u> , argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol. Sylwer: y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	Dyddiad:	30.5.18
Dylai'r arweinydd modwl roi tic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.			IE
			NA

Deilliannau Dysgu a brofir (o faes llafur y modwl)	Meini Prawf Asesu: I gyflawni pob deilliant, rhaid i fyfyrwr ddangos y gallu i:
• Esbonio cyfrifoldebau athrawon wrth weithio'n agos â rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n cynorthwyo ysgolion a'r gymuned ehangach. • Dadansoddi data perfformio yn gywir fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan ddangos dealltwriaeth o'r gofynion cenedlaethol sy'n ymwneud â chynnydd o fewn y cwricwla statudol ac anstatudol. • Nodi strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol priodol, ac adfyfrio yn feirniadol ar eu heffeithiolrwydd wrth ymgymryd ag arfer ystafell ddosbarth. • Adfyfrio yn feirniadol ar eu dysgu eu hunain, gan dynnu ar ddamcaniaethau perthnasol a phrofiad personol.	• Draffod y casglu data proffesiynol bwriadedig gan gyfiawnhau ei gyfaddasrwydd a'i ddiben. • Gynorthwyo'r drafodaeth drwy gyfeirio at amrywiaeth o lenyddiaeth berthnasol. • Integreiddio damcaniaeth ac arfer gan ystyried y cyd-destun addysgol. • Draffod y materion moesegol hynny y dylid eu hystyried yn ystod yr asesiadau. • Ysgrifennu darn o waith sydd wedi'i strwythuro'n dda gan ddefnyddio arddull ysgrifennu gydlynol.

MEINI PRAWF AC ADBORTH MYFYRWYR

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y meini prawf asesu. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich gradd. Dangosir y pwysiad sydd ar gael ar gyfer pob maen prawf. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	Y radd a ddyfarnwyd
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc) Ehangder y gwaith ymchwil a/neu eich gwaith darllen eich hun, dethol adnoddau credadwy, defnyddio arferion cyfeirnodol priodol. Ehangder y wybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r egwyddorion sy'n sail i ac yn gysylltiedig â'r ddisgyblaeth.	
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad) Dadansoddiad, gwerthusiad a synthesis; rhesymeg, dadl a phenderfyniadau; adfyfrio dadansoddiad; trefn syniadau a thystiolaeth.	
3. Cymwysiadau Pedagogaidd a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol) Defnydd o ddulliau addysgol, deunyddiau, offer a thechnegau; cymhwyso cysyniadau; llunio datrysiadau arloesol a chreadigol i ddatrys problemau. Priodoleddau arfer proffesiynol: gweithio fel unigolyn neu yn gydweithredol.	
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol Defnydd o gyfryngau priodol; cyflwyno a threfnu.	

Marc yr Aseiniad (Mae marciau'r asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r graddau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (rhowch dic os ydy'n berthnasol)		
	Hyd at un wythnos yn hwyr	X	
	Mwy nag un wythnos yn hwyr	X	

MEINI PRAWF ASESU A MARCIO

AR GYFER YR ASEINIAD HWN

Barn gyffredinol	Dealltwriaeth wael neu arwynebol, anhrefnus, anghyflawn a/neu wallus	Dangosir dealltwriaeth foddhaol o'r prif faterion	Dangosir dealltwriaeth dda gyda pheth dadansoddi	Dealltwriaeth dda iawn o egwyddorion sylfaenol a thystiolaeth berthnasol, gyda dadl gydlynol a rhesymegol	Ateb rhagorol wedi'i ysgrifennu, ei strwythuro a'i hysbysu yn dda ac yn dangos eglurder meddwl a dirnadaeth bersonol
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (Cysyniadol)	Camdealltwriaeth camdbybiaethau, neu gamddehongliadau sylfaenol	Dealltwriaeth foddhaol o'r deunydd ar y cyfan gyda pheth cymhwyso	Dealltwriaeth dda ar y cyfan o faterion allweddol gyda thystiolaeth o dealltwriaeth a chymhwyso	Dealltwriaeth dda iawn o'r materion allweddol a'r goblygiadau ehangach	Dealltwriaeth ragorol o faterion, cysyniadau a dadleuon allweddol
	Deunydd darllen gwael a/neu amhriodol, diffyg cywirdeb, amrediad o ffynonellau ansicr, cyfyngedig/ dyddiedig	Amrediad darllen boddhaol wedi'i dynnu o'r rhestr darllen argymelledig a ffynonellau eraill	Amrediad darllen da wedi'i dynnu o'r rhestr darllen argymelledig a ffynonellau eraill	Amrediad da iawn o ddeunydd darllen perthnasol a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau nad ydynt ar y rhestr argymelledig	Tystiolaeth glir o feddwl annibynnol yn seiliedig ar amrediad darllen dethol a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau
Sgiliau deallusol (dadl)	Fawr ddim synnwyr dadl, a diffyg cydlynad. Ar y cyfan, yn ddisgrifiadol neu'n storïol	Y ddadl yn gytbwys gyda pheth safbwyntiau gwahanol	Caiff dadl dda, gytbwys ei chyflwyno a chaiff y safbwyntiau eu cyfiawnhau	Cyflwynir dadl dda iawn gan ystyried y safbwyntiau yn ofalus	Cyflwynir dadl feirniadol gyda thystiolaeth o gyfuno safbwyntiau
	Cyflwynir y canfyddiadau oddi mewn fframwaith disgrifiadol ond heb dynnu llawer o gasgliadau	Cyflwynir y canfyddiadau oddi mewn fframwaith datblygol gyda chasgliadau gwan	Cyflwynir y canfyddiadau gyda pheth dadansoddi a chasgliadau a gyfiawnheir	Cyflwynir a dadansoddir y canfyddiadau gyda pheth beirniadaeth wedi'u seilio ar y dystiolaeth a gyflwynir	Cyflwynir y canfyddiadau oddi mewn i fframwaith beirniadol a dadansoddiol. Casgliadau craff wedi'u seilio'n gadarn ar y dystiolaeth a gyflwynir
Cymwysiadau addysgol a phroffesiynol (cysylltu theori ag arfer)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymgysylltu a dealltwriaeth o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Tystiolaeth foddhaol o ymgysylltu a dealltwriaeth o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Tystiolaeth dda o integreiddio theori ac arfer o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Tystiolaeth dda iawn o integreiddio theori ac arfer o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Integreiddio theori ac arfer ardderchog o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol
	(adfyfrio proffesiynol)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o adfyfrio	Tystiolaeth foddhaol o adfyfrio beirniadol	Tystiolaeth dda o adfyfrio beirniadol	Tystiolaeth effeithiol o adfyfrio beirniadol
Sgiliau Allweddol/Trosglwyddadwy (cyflwyniad)	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn wael neu'n wan	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn foddhaol	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn dda	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn dda iawn	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn effeithiol
	(sillafu, atalnodi a gramadeg)	Gwallau sylweddol o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Rhai gwallau o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Gwallau yn yr iaith ysgrifenedig yn brin iawn	Dim gwallau neu rai mân iawn yn yr iaith ysgrifenedig
	(strwythur)	Strwythur gwael neu wan gydag arddull ysgrifennu aneglur	Strwythur boddhaol gydag arddull ysgrifennu cydlynol ar y cyfan	Strwythur da gydag arddull ysgrifennu cydlynol	Strwythur effeithiol ac arddull ysgrifennu cydlynol dros ben sy'n ennyn diddordeb y darlennydd yn gyflawn
	(technegau cyfeirnod)	Yn dilyn yn anghywir protocolau a chonfensiynau cyfeirnod Harvard	Defnydd boddhaol o brotocolau a chonfensiynau cyfeirnod Harvard	Defnydd da o brotocolau a chonfensiynau cyfeirnod Harvard	Defnydd o system Harvard gyda phob ffynhonnell yn gywir, yn gyson ac yn effeithiol

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae'r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich marc. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy'n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi'n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	CYFEIRIO		D	C	B	A
	METHU'N LLWYR	ANFODDHAOL	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc)	☐	☐	☒	☐	☐	☐
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)	☐	☐	☐	☒	☐	☐
3. Cymwysiadau Pedagogaid a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)	☐	☐	☐	☒	☐	☐
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol	☐	☐	☐	☒	☐	☐

RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI’N TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO’N DDA YNDDYNT		RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI’N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU DATBLYGU	
- Dadansoddi’r plentyn : Gwybod pa wybodaeth sydd yn berthnasol ac o werth.		- Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r dull mosaic	
Enw’r myfyriwr	Sali Lloyd	Dyddiad	27/05/18
Llofnod y Myfyriwr	SCLLOYD		

Rhagarweiniad

Lleolir yr ysgol lle cynhaliwyd y gwaith ymchwil yn Ninas Dde Orllewin Cymru. Mae gan yr ysgol dalgylch eang iawn o amgylch y ddinas, ac felly yn cael twf mawr o ddisgyblion. Mae yna tua 300 o blant ar y gofrestr, wedi'u dosbarthu i 9 o ddosbarthiadau, rhai ohonynt yn ddosbarthiadau oedran cymysg. Mae canran y disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 11%. Her a wynebwyd gan yr ysgol, fel y mwyafrif o ysgolion Cymraeg yn yr ardal, yw'r diffyg Cymraeg fel mamiaith gartref, ychydig iawn o'r plant sydd yn siarad Cymraeg gartref neu yn cael cymorth gan siaradwyr Cymraeg tu hwnt i'r ysgol.

Mae'r dosbarth lle cynhaliwyd y gwaith ymchwil yn un cymysg, gyda 15 ym Mlwyddyn 1 a 15 yn y Derbyn. Lleolir y dosbarth ger draw o brif adeilad yr ysgol mewn bloc allanol. Mae'r dosbarth yn cynnig ardaloedd tu fas a dan do, gweithredir ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn yn y dosbarth yma. Mae yna gymysgedd o alluoedd yn y dosbarth, nid yw'r gwahaniaeth oedran yn amlwg. Serch hynny, mae'r plant yn cael eu grwpio yn ôl eu blwyddyn a'u gallu. Mae yna dri grŵp o blant Blwyddyn 1 a phedwar grŵp o blant Derbyn. Caiff gwersi ei gwahaniaethu yn fanwl er mwyn sicrhau cyraeddiadau'r ddau oedran o lefel disgwylidig. Serch hynny, gweithir mwyafrif o'r dosbarth yn gyfforddus ar fframwaith blwyddyn 1. Gwelwyd buddiant y cymysgedd o oeddrannau o fewn un dosbarth.

Mae'r dysgwr ag edrychir arno yn ystod yr ymchwil ym mlwyddyn 1. Gweithir yng ngrŵp gyda phedwar plentyn eraill, a chawsant ei gysidro o allu canolig. Nid yw'n siarad Cymraeg gartref, ond, mae ganddo deulu cefnogol iawn a thad sydd yn dysgu Cymraeg. Mae perthynas cadarnhaol rhwng y rhieni a'r staff yr ysgol. Ceir sesiynau wythnosol o hanner awr yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth er mwyn hybu ei ddarllen a ffurfio. Mae'r dysgwr yn mynychu'r sesiynau gyda'i ffrind gorau yn y dosbarth, ac edrychion nhw ymlaen yn fawr iawn atynt. Mae'r dysgwr yn cymryd rhan wrth gynllunio ei gynnydd ac yn ymwybodol iawn o'i dargedau.

Casglu data

Casglwyd y data gan ddefnyddio'r dechneg casglu data a fathwyd gan Clark (2011). Penderfynwyd defnyddio'r dull hwn o gasglu data am ei fod yn ystyried amrywiaeth o elfennau gwahanol sydd gan y dysgwr ac yn rhoi crynhoad dyfnach o wir natur yr

unigolyn. Lluniwyd darlun eang o fywyd ysgol y dysgwr, a sut ydyw yn gweithredu o fewn y cyd-destun hwnnw. Honnwyd gan Clark (2011) bod yr ymagwedd mosaic yn creu argraff gadarnhaol a byw o'r plentyn, a rhoddwyd gwybodaeth bellach am sut fath o sefyllfa ydyw i weithio ynddi, a phrofwyd hynny gan y data ansoddol a gasglwyd. Roedd y profiad o gasglu sylwadau a theimladau'r dysgwr yn aml yn helpu i mi gael argraff gyflawn o'r plentyn yn ei awyrgylch naturiol. Roedd fy mhresenoldeb i fel athrawes dosbarth yn caniatáu i'r dysgwr dod yn gyfarwydd ac yn gyfforddus efo fi wrth i mi holi cwestiynau. Prif ffocws yr ymchwiliad oedd gwrandao ar y disgybl a dilyn arweinyddiaeth hwy, gwelaf fuddiant o'r broses hwnnw wrth bori trwy'r data.

Defnyddiais y dechneg arsylwi er mwyn cywain gwybodaeth am ymddygiad a phresenoldeb y dysgwr yn y dosbarth. I gychwyn, gwnes i hynny fel dieithr yng nghefn y dosbarth yn gwylio'r dysgu yn digwydd. Erbyn i mi ddechrau addysgu yn y dosbarth roeddwn yn arsylwi wrth addysgu gan wneud nodiadau ar ôl gwersi. Mae'r dechneg arsylwi yn galluogi'r arsylwr i weld y testun yn ei awyrgylch naturiol, ni ddylai fod unrhyw anhawster i'r unigolyn a dylai ymddwyn yn weddol naturiol. Yn ôl Cordes (1994) ni fydd unrhyw waith arsylwi yn ddibynadwy os oes yna unrhyw fath o duedd wrth arsylwi. Felly er mwyn gasglu data cywir a defnyddiol, ni ddylai'r arsylwr cael unrhyw duedd neu ddiddordeb personol yng nghanlyniadau'r ymchwiliad. Roedd fy arsylwadau yn ddiduedd yn gyson gan nad oeddwn yn nabod y plentyn ddigon er mwyn i mi gael unrhyw duedd personol at y gwaith. Roedd arsylwi fel athrawes dosbarth yn fwy effeithiol am fy mod i yn fwy ymwybodol o fwriadau a meini prawf y gwersi, ac felly roeddwn yn gallu sylwi ar ddatblygiad y plentyn mewn perthynas gyda'r dysgu disgwyledig. Serch hynny, gellir dadlau nad yw'r arsylwadau a chaiff eu hysgrifennu ar ôl y digwyddiad yr un mor ddilys ag arsylwadau a chaiff eu nodi yn y man.

Defnyddiwyd cofnodion a chasglwyd gan yr athrawes wrth gasglu data, er enghraifft y cofnodion darllen. Mae'r data eilaidd yma yn ffordd wych o ddod i nabod cynnydd yr unigolyn hyd yma. Mae defnyddio data sydd wedi'i gynhyrchu yn barod yn helpu i ysgogi agweddau newydd i ymchwilio (Notz, 2005). Wrth ddefnyddio cofnodion darllen a thrafod gyda'r athrawes dosbarth galluogodd hynny i mi wneud canfyddiadau a phenderfyniadau fy hun am ei gynnydd. Serch hynny, roedd hi'n bwysig i mi osgoi dibynnu'n ormodol ar un ffynhonnell o wybodaeth. Pwysleisir gan y dull mosaic

pwysigrwydd llais y plentyn a'r ystod eang o ffynonellau casglu data, felly defnyddiwyd y data eilaidd yn fân.

Nodwyd yn glir pwysigrwydd llais yr unigolyn wrth ymchwilio i ddatblygiad a chynnydd addysgol. Er mwyn gynnwys llais y disgybl yn y data, cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol ar ddiwedd bob wythnos. Ym mhresennol yn y trafodaethau oedd y disgybl a'r ymchwilydd. Defnyddiwyd fel sesiwn i adolygu'r datblygu a ddigwyddwyd yn ystod yr wythnos honno. Trafodwyd y gwersi a chafwyd yn ystod yr wythnos a rhannodd y disgybl ei deimladau am y gwersi. Roedd y trafodaethau yn rhoi mewnwelediad i agwedd y disgybl tuag at ei waith ac yn cyfrannu'n fawr at wybodaeth am ddiddordebau a hoffterau'r disgybl. Bydd y wybodaeth yma yn cyfrannu at gynlluniau gweithredol i'r plentyn er mwyn sicrhau mwynhad. Cysylltwyd yr elfen yma o gasglu'r data yn gryf gyda theori dysgu gymdeithasol Vygotsky (1978) lle nodwyd pwysigrwydd cyfathrebu yn natblygiad gwybyddol. Serch hynny, gellir dadlau nad oedd yr hyn a rhannwyd gan y disgybl yn ddilys gan nad yw trafodaeth anffurfiol un wrth un yn amgylchedd naturiol i'r unigolyn.

Casglwyd tystiolaeth o bob darn o waith a gyflawnwyd gan y disgybl, gan gynnwys y sylwadau ac adborth a chafwyd fel data. Mae'r dystiolaeth yma yn bwysig er mwyn gallu gweld dilyniant yn ei waith. Trwy ddadansoddi'r adborth a'r gwaith dilynol gellir asesu dylanwad yr adborth a rhoddir a chofnodi'r hyn sydd yn gweithio neu ddim i'r unigolyn. Mae'r math yma o ddata yn ategu at y darlun mawr o'r unigolyn. Wrth edrych ar waith yr unigolyn gellir cysylltu'r hyn a ddwedir gan y disgybl â'r hyn a weithredir gan y disgybl. Serch hynny, nid yw'r gwaith gorffenedig wastad yn enghreifftio'n gywir gallu'r plant am ei fod yn ddibynnol ar sut aeth y wers i'r plentyn hwnnw ac amrywiaeth o ffactorau afreolaidd eraill.

Dadansoddi'r dysgwr

Iaith- llafar, darllen ac ysgrifennu

Mae'r dysgwr a thrafodwyd (disgybl A) yn awyddus iawn i ddarllen yn gyson yn ystod y dydd. Mae'n hoff iawn o ddarllen ac ymdrechwyd yn fawr iawn i ymarfer darllen yn y tŷ. Nodwyd yn yr arsylwadau bod y disgybl yn frwdfrydig iawn am ei ddarllen, darllenir un sylwad;

(Disgybl A yn codi ei law)

Disgybl A: Rwy'n dwli darllen.

Roedd disgybl A mor awyddus i fynegi ei farn am ddarllen cododd ei law yn ystod gwers mathemateg. Wrth drafod y digwyddiad yma gyda'r athrawes darganfyddais nad oedd disgybl A yn cael yr un agwedd tuag at ddarllen ar ôl gwyliau Nadolig. Esboniwyd gan yr athrawes bod disgybl A wedi gwneud cynnydd anferthol yn ei waith darllen dros y tymor yma. Eglurwyd bod disgybl A wedi ymateb yn dda i sesiynau tric a chlic, ac o ganlyniad carlamodd ei ddatblygiad darllen ymlaen. Mae disgybl A yn ymweld â'r brifathrawes yn wythnosol am y sesiynau 'Tric a chlic'. Yn amlwg mae gweithio un wrth un gydag oedolyn yn fuddiol iawn iddo. Honnwyd gan Vygotsky (1978) mae plant yn datblygu eu gwybodaeth yn weithredol ar gyfradd eu hun, a thrwy gydweithio gydag unigolyn mwy cymwys, mi fyddent yn goresgyn ei barth datblygiad procsimol. O'r hyn a ddwedwyd gan yr athrawes, cyrhaeddodd disgybl A ei barth datblygiad procsimol yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn, ac yna gyda chydweithrediad y brifathrawes datblygodd tu hwnt i'r parth.

Yn ystod y drafodaeth gyda'r athrawes, mynegodd disgybl A ei farn ym mhellach. Esboniodd ei fod yn hoff iawn o ddarllen ac yn mwynhau darllen gartref gyda'i rieni. Soniodd am yr holl lyfrau maent wedi darllen ac adroddodd pa lyfr oedd ei ffefryn. Roedd hi'n amlwg fod disgybl A yn teimlo'n gwbl gyfforddus yn rhannu ei lwyddiant. Mae ei falchder yn ei waith, a'i barodrwydd i rannu llwyddiant yn dangos ei fod yn ymwybodol iawn o'i gynnydd ac eisiau bod ei ffrindiau ac athrawon yn ymwybodol hefyd.

Roedd y cymysgedd o ddata a gasglwyd i ganfod y wybodaeth yma am y dysgwr yn helpu i greu darlun mawr o'r dysgwr. Rhoddodd ei gyfraniad yn ystod y wers sbardun i mi ofyn rhagor o gwestiynau am ei batrymau darllen. Roedd yr arsylwi a'r cyfarfod gyda'r athrawes wedi rhoi gwybodaeth i mi am ei gynnydd hyd yma, yn ogystal â'r wybodaeth am y math o ymyrraeth sydd wedi profi i weithio yn dda iddo. Rhoddodd ei frwdfrydedd ef syniadau i mi am y fath o ddysgwyr ydyw, a'i agwedd tuag at ei addysg a'i ddysgu.

Cafodd ddisgybl A deilliant 3 isel yn ystod yr hanner gyntaf o'r flwyddyn, ac yn barod mae'n cyrraedd ambell i elfen deilliant 4. Serch hynny, mae ei waith ysgrifenedig yn

wan, ac nid ydyw wedi gwneud yr un datblygiad yn ysgrifenedig. Anelir at gyrraedd lefel 3 uchel erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn golygu mae rhaid iddo ddatblygu ei sgiliau ysgrifennu ymhellach. Wrth symud ymlaen dylai ei waith Tric a Chlic bwydo i'w waith ysgrifenedig.

Mathemateg

Mynegwyd gan ddisgybl A ei fod yn hoff iawn o rifedd, yn enwedig wrth wneud rhywbeth ymarferol i ddatblygu sgil rhifedd. Mynegodd ei hoffter i'r gêm dybli cynlluniwyd iddo gyflawni. Roedd y gêm yn un cystadleuol iawn lle disgwylir i'r plant gweithio fel tîm i ddarganfod y dominos ac yna eu dosbarthu i'r basgedi 'dwbl' ac 'arferol'. Roedd yr elfen gystadleuol o'r gêm yn ysgogi disgybl A ac yn ei ddiddanu wrth ddysgu. Yn ystod cyfweiliad gyda'r athrawes a'r ymchwilydd pwysleisiodd ei fod yn mwynhau'r gemau ymarferol a ddim yn hoffi eistedd wrth fwrdd i ysgrifennu a chofnodi. Dangoswyd hyn ei fod yn ddysgwr cinesthetig. Mae dysgwr cinesthetig yn hoff o symud a gwneud pethau corfforol yn y dosbarth (Leopold, 2012). Mae disgybl A wedi ymglymu at dasgau ymarferol yn llawer gwell nag ydyw i dasgau ysgrifenedig.

Casglwyd y data trwy arsylwi'r plentyn wrth ymgymryd i dasgau a gemau ymarferol a chymharu'r ymroddiad i'r ymdrech a rhoddir i'r dasg ysgrifenedig ar bapur. Yn amlwg mae disgybl A yn gweld gwersi ffurfiol yn heriol iawn. Mae ei allu i ganolbwyntio yn ymddangos yn wan iawn wrth eistedd wrth ddesg. Mae disgybl A yn buddio yn fawr o gael sylw'r athrawes yn gyson er mwyn ei annog a'i ganolbwyntio. Yn ystod gwers arian, lle disgwylir iddynt gyflawni taflen waith gyda chymorth yr athrawes, dangosodd ei fod yn gallu gweithio pan fydd y fathemateg yn weledol gydag adnoddau concrit. Gwelai canolbwyntio yn anodd iawn pan fydd plant o'i amgylch yn chwarae neu yn cymryd rhan mewn tasg fwy ymarferol. Gan ei fod yn ei gweld hi yn anodd canolbwyntio ar waith papur, mae ei gyrhaeddiad ym mathemateg yn llai na ddisgwylir i blentyn o'i oedran.

Atodwyd copi o'i waith papur mathemateg, gweler yn yr adborth ei fod wedi cwblhau'r gwaith gyda chymorth yr oedolyn. Yn wahanol iawn i'r arsylwadau a chafodd ei gymryd o'r gweithgareddau ymarferol, lle gweithiodd disgybl A yn weddol annibynnol gyda chriw o blant, mae'r gwaith papur yn dangos ei ddiffyg ymglymiad i'r dasg.

Mae'r amrywiaeth o ddata a chasglwyd yn bwysig er mwyn gallu dadansoddi'r patrymau dysgu'r dysgwr mewn gwahanol weithgareddau. Mae ei farn ef yn cael ei atgyfnerthu yn ei ymddygiad ac ymroddiad i'r tasgau a gynlluniwyd gan yr athrawes. Cadarnhawyd y casgliadau'r math o ddysgwr a'r math o weithgareddau sydd yn gweithio iddo.

Erbyn dechrau tymor yr Haf cyrhaeddwyd deilliant dau gryf, gydag elfennau dwys o ddeilliant tri. Yn ystod fy amser yn y dosbarth, rwyf wedi cynllunio amrywiaeth o wersi ymarferol ac yna wersi ffurfiol i asesu'r hyn a ddysgwyd. O ganlyniad i hynny, a'r ymyrraeth ychwanegol gaiff yn wythnosol o'r brifathrawes, mae ganddo nawr llawer o diciau ychwanegol yn neilliant 3. Anelir at gyrraedd deilliant tri chryf erbyn diwedd y tymor, gydag ystod o elfennau yn neilliant 4.

Datblygiad personol a chymdeithasol

Mae disgybl A wedi profi ei fod yn alluog iawn mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae ei barodrwydd i ofalu am eraill a chyfrannu at drafodaethau yn y dosbarth. Wrth arsylwi sylwir bod disgybl A yn hyderus iawn o fewn ei grŵp o gyfeillion, yn aml codwyd ei law yn ystod amser ar y carped i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau gyda'r dosbarth. Mae ei awydd i fynegi ei farn wedi'i amlygu yn barod, a chanmolwyd am ei gyfeillgarwch yn y dosbarth ac ar yr iard.

Mae'r ffaith ei fod yn rhan o ddosbarth rhanedig yn amlygu ei ymwybyddiaeth o anghenion ei hun ac anghenion pobl eraill. Deallwyd gan ddisgybl A, yr angen am esboniadau pellach a symlach i hwyluso profiadau'r Derbyn o'r wers. Mae'n datblygu'r gallu felly i adnabod gwahaniaethau rhyngddo'i hun a'i gyfoedion mewn modd gofalgarg. Serch hynny, nid yw'n dangos diddordeb neu ofal am ei amgylchedd neu bethau eraill byw yn yr ysgol. Arsylwyd, gan yr ymchwiliwr, disgybl A yn gwrthod helpu tacluso lle nad oeddent wedi gwneud llanast. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn amlygu ei ddiffyg bodlonrwydd i helpu eraill i gyfrannu at a gofalu am eu hamgylchedd. Er mwyn cyrraedd deilliant pedwar uchel yn ei sgiliau personol a chymdeithasol, fel mwyafrif o'i gyd-ddisgyblion, bydd rhaid iddo ddysgu i ddangos parch tuag at ei amgylchedd. Yn ogystal â'r amgylchedd dosbarth, bydd rhaid iddo ddatblygu ei wybodaeth am ei amgylchedd naturiol, megis planhigion ac anifeiliaid.

Yn ystod trafodaeth gyda disgybl A sylwais ei fod yn gweld gwaith ysgrifennu yn anodd a bod gwell ganddo waith rhifedd â'n ei fod yn fwy cyfforddus yn ffurfio rhifau na llythrennau. Roedd y trafodaeth a chafwyd yn aeddfed, a llwyddodd i resymu drosto'i farn a'i hoffterau. Mae ei allu i resymu yn dda, a ddangoswyd hynny yn ei waith llafar a'i asesiadau ffurfiol ar incerts. Cytunwyd gan yr athrawes dosbarth ei fod yn datblygu'n dda yn bersonol a chymdeithasol, ond bod yna elfennau o'r deilliant pedwar nad ydyw wedi cyrraedd eto.

Mae disgybl A yn gweithio yn dda gydag eraill, yn ymdopi yn wych mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn rheoli ei emosiynau yn rhesymol. Nid yw'n siomi yn hawdd a darllenwyd sefyllfaoedd cymdeithasol yn dda. Wrth chwarae gemau yn y dosbarth, arsylwais ddisgybl A yn annog y plant eraill i aros am eu tro, ac i ddilyn y rheolau. Mae ei allu i reoli sefyllfaoedd anodd fel hwn yn dangos ei fod yn datblygu i fod yn gymeriad sydd yn cydffurfio i normau a gwerthoedd y dosbarth. Gwelwyd datblygiad yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth chwarae gemau mathemateg ar y cyd ac mewn grwpiau bach.

Datblygiad corfforol

Mae Disgybl A wedi cyrraedd deilliant 4 cadarnhaol gyda'i sgiliau corfforol ac yn datblygu yn ddyddiol trwy gemau a gweithgareddau yn y dosbarth ac ar y buarth. Mae ei fynegiant o fwynhad wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol yn amlygu ei hoffterau wrth ddysgu. Mae'n ymwybodol iawn o'i gyrff a'i ofod personol, ac yn chwarae a symud mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dangoswyd gan lun o wers ymarfer corff ei fod yn gallu cadw cydbwysedd a sefyll yn llonydd yn ystod gweithgareddau gymnasteg. Yn y wers a welwyd yn y llun, roedd rhaid iddynt weithio fel grŵp i greu siâp dinosor gyda'u cyrff. Dangosodd ei aeddfedrwydd a'i sgiliau meddwl flaengar wrth drefnu ei hun a'i bartner i greu siâp penodol. Er nad oedd yn cymryd rheolaeth wrth drefnu, roedd ganddo hyder a gwybodaeth ddefnyddiol i gyfrannu at adeiladwaith y dasg. Meddyliodd tu hwnt i'r arfer am ei gorff gan ystyried sut allent ei blygu i greu siapau gwahanol. Mae ei ddealltwriaeth o'r sgiliau syml corfforol, a sut i'w berfformio yn safonol iawn a chanmolwyd am ei gydweithrediad o fewn gwersi ymarferol.

Mae'r dystiolaeth o'r wers yn ffordd dda o gofio ac adfyfrio ar gyraeddiadau'r wers. Yn ogystal, rhoddwyd darlun o'i hunan hyder a'i falchder ynddo'i gyraeddiadau ei hun. Ar y llaw arall, dim ond cwpwl o sgiliau sydd yn cael ei arddangos o fewn yr un llun, ac felly

nid yw'n ddigon o wybodaeth i drafod y disgybl yn gyflawn. Mae disgybl A wedi profi i'w allu i reoli ei gorff, i feddwl am siâp a hyblygrwydd ei gorff a defnyddio'r wybodaeth mewn cyd-destun y thema, a dangoswyd hynny yn glir yn y dystiolaeth.

Yn ystod y thema nesaf, yn ail hanner y tymor, bydd yna fwy o gyfleoedd i ddisgybl A arddangos ei sgiliau corfforol a'i ddatblygu ymhellach. Gyda'r cyfleoedd a rhoddwyd iddo yn ystod yr hanner tymor gyntaf dangoswyd ei fod yn fedrus iawn yng nghorfforol a gyda'r cyfleoedd priodol anelir at gyrraedd deilliant 5 yn natblygiad corfforol.

Camau nesaf

Iaith

Mae'r data yn dangos cynnydd disgybl A yn ei waith darllen dros y tymor diwethaf. Dangoswyd y cynnydd o ganlyniad i'r ymyrraeth a gafwyd gan y brifathrawes. Yn amlwg mae disgybl A yn ymateb yn dda i gynlluniau gweithredol gydag oedolyn. Mynegodd disgybl A ei fod yn mwynhau mynd i sesiynau ychwanegol gyda'i ffrind gorau, sydd yn dangos nad yw'r anghenion ychwanegol yn cael unrhyw ddylanwad negatif.

Gan fod y cynlluniau gweithredol blaenorol wedi cynhyrchu cynnydd a datblygiad ieithyddol, dylent ddefnyddio'r un math o gynlluniau ar gyfer datblygiad pellach. Mae'r cynnydd a ddangoswyd gan ddisgybl A yn profi'r hyn a ddywedwyd gan Vygotsky am effaith yr unigolyn mwy cymwys ar ddatblygiad gwybyddol plentyn (1978). Yn ôl gwaith Vygotsky, mae cyfathrebiad cymdeithasol a chymorth gan unigolyn mwy cymwys yn hybu datblygiad yr unigolyn y neu barth datblygiad procsimol. Gellir dadlau, yn ôl yr hyn a ddarganfuwyd gan y data, bod disgybl A wedi datblygu yn ei barth yn ystod yr ymyrraeth ddiwethaf a chafodd, a gydag ymyrraeth ychwanegol, wedi'i gynllunio ym mhenodol i wella'r safonau ysgrifennu, disgwylir iddo ddatblygu ymhellach eto.

Yn ystod datblygiad ieithyddol mae pob elfen o'r broses yn hynod o bwysig. Cyn i'r unigolyn gallu ysgrifennu yn glir a darllenadwy ac yn cymharol annibynnol, mae'n rhaid iddo wedi datblygu'n ddigonol ei sgiliau llafar a darllen. Wrth edrych ar sylwadau yng nghofnod darllen disgybl A, gwelwyd ei fod yn derbyn canmoliaeth gyson am ei allu i dorri geirfa i synau er mwyn gallu darllen y gair. Mae'r dechneg yma yn mynd i fuddio disgybl A yn fawr iawn wrth iddo ymgeisio ar ragor o dasgau ysgrifenedig. Yng

nghynllun gweithredol disgybl A, byddaf yn nodi pwysigrwydd pwysleisio'r sgil yma yn ei waith darllen. Yn ogystal, byddaf yn cynllunio i adolygu ffurfiant llythrennau gan ddefnyddio'r caneuon a rhigymau 'Tric a Chlic'. Mae yna berthynas cadarn rhwng canu a cherddoriaeth a chaffael sgiliau iaith. Rhestrwyd gan Stansell (2005) yr ystod eang o sgiliau cerddorol sydd yn angenrheidiol hefyd wrth gaffael ar iaith. Credaf yn gryf y gall caneuon a rhigymau creu profiadau cofiadwy i blentyn, sydd yn cludo i'w feddwl wrth ymgeisio ar dasgau eraill. Bydd rhigymau tric a chlic, sydd yn esbonio ffurfiant llythrennau, yn fy marn i, yn fuddiol iawn i ddisgybl A yn ei waith ysgrifenedig. Cynlluniau felly iddo dderbyn ymyrraeth Tric a Chlic, ym mhenodol cymorth â ffurfiant, yn wythnosol.

Dymunaf iddo allu cyrraedd deilliant 3 cadarnhaol yn ei waith iaith erbyn diwedd y tymor. Gwelaf allu ynddo i gyrraedd yr un safonau a deilliannau ym mhob elfen o'i waith iaith.

Mathemateg

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd am ddatblygiad rifedd disgybl A yn dangos ei fod yn ymateb yn dda i waith ymarferol yn y dosbarth. Mynegodd ei fwynhad o waith rhifedd a ddangoswyd hynny yn ei frwdfrydedd i gyfrannu at gemau rhifol yn y dosbarth. Mae ei ymroddiad i dasgau ymarferol yn awgrymu ei fod yn ddysgwr cinesthetig ac yn buddio o gael profiadau wrth ddysgu.

Mae theori dysgu brofiadol Kolb (1984) yn cyfuno profiad, canfyddiad, gwybyddiaeth ac ymddygiad i ddisgrifio'r broses o ddysgu. Pwysleisir pwysigrwydd y broses o addasu a dysgu yn lle ffocysu ar gynnwys a chanlyniadau. Hynny yw, awgrymir y dylai dysgwr cael profiadau amrywiol o'r dysgu er mwyn gallu defnyddio'r sgiliau yng nghydestunau gwahanol. Honnwyd gan Kolb mai dysgu yn broses cyfredol a gaiff ei chreu a'i ail-greu yn gyson, trwy wahanol brofiadau o'r un testun mae'r dysgu yn tyfu ac yn ehangu ac o ganlyniad datblygir dealltwriaeth. Gan ddilyn theori Kolb, dylai disgybl A buddio o ddilyn y gylchred dysgu brofiadol wrth ddysgu cysyniadau rhifedd newydd.

Hoffwn ddilyn y gylchred wrth gynllunio dilyniant o wersi rifedd er mwyn darparu'r profiadau ac atgyfnerthu'r dysgu trwy arbrofi'n weithredol. Byddaf yn dechrau'r gwersi gyda phrofiad concrit cadarnhaol megis gêm dybli. Gan ddilyn y gylchred, cynhelir sesiwn adlewyrchu i drafod y profiad, yr hyn a ddysgwyd ac i hunanasesu ei

gyrhaeddiad. Yn y wers nesaf hoffwn glywed y dysgwr yn crynhoi'r dysgu a chanfod y sgil newydd a ddatblygwyd. Yna fyddai'n rhoi profiad newydd i'r dysgwr, bydd angen defnyddio'r un sgil a ddefnyddiwyd yn y profiad gwreiddiol, ond, bydd cyd-destun y profiad yn wahanol. Dyma le bydd y dysgu neu ddiffyg dysgu yn amlygu ei hun. Bydd hi'n werthfawr iawn i ddysgwr A gallu ailymweld â sgiliau blaenorol ymysg profiadau newydd hefyd. Bydd y broses o ailymweld yn atgyfnerthu'r dilyniant a datblygiad dysgu a ddisgrifiwyd gan Kolb (1984).

Bwriadaf drawsffurfio'r ffordd mae dysgwr A yn dysgu rhifedd trwy ddarparu cyfres o brofiadau dilynol iddo. Yn amlwg o'r arsylwadau a chyfarfodydd a gasglwyd, mae disgybl A yn dysgu gorau wrth fwynhau, a chredaf gall defnyddio hwnnw i'w fantais creu cynnydd yn ei waith rhif.

Datblygiad personol a chymdeithasol

Yn ôl y data a gasglwyd, mae datblygiad cymdeithasol a phersonol disgybl A yn cynyddu yn gyson. Mae ei gyfeillgarwch a'i sgiliau cyfathrebu o fewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn arbennig o dda. Dangoswyd yn blentyn aeddfed iawn wrth chwarae gemau gydag eraill a thrafod materion dwys. Serch hynny, elfen o'i bersonol a chymdeithasol sydd ddim yn datblygu mor aml yw ei gyfraniad at ofalu am yr amgylchedd dysgu. Nid yw'n dangos diddordeb yng nghyfrifoldebau cymdeithasol megis gofalu am blanhigion y dosbarth neu dacluso'r dosbarth. Felly yn bennaf hoffwn gynnal datblygiad pellach yng nghyd-destun gofalu am ei amgylchedd.

Gan ddilyn egwyddorion adeileddiaeth hoffwn ddilyn trywydd y plant wrth osod disgwyliadau am ein hamgylchedd dysgu. Byddai'n trafod normau a gwerthoedd cymdeithasol gyda'r plant ac yn trafod cydgyfrifoldeb o amgylcheddau cyhoeddus. Honnwyd gan (McCombs, 2012) mai cynnwys y plant yn sefydlu disgwyliadau'r dosbarth yn helpu i ddatblygu unigolion dibynadwy a chyfrifol. Gwelodd McCombs ei disgyblion yn disgyblu eu hun a'i gilydd yn y dosbarth am eu bod yn teimlo perchnogaeth o'r dosbarth ac o ganlyniad yn dangos parch iddo. Credaf fydd disgybl A yn datblygu i ofalu am a dangos pryder dros ei amgylchedd trwy fabwysiadu cyfrifoldebau a pherchnogaeth yn y dosbarth.

Disgwylir i'r strategaeth dosbarth cyfan cael dylanwad ar ddatblygiad personol a chymdeithasol pob unigolyn. Bydd y profiadau newydd yn werthfawr ac yn drosglwyddadwy i fywyd tu hwnt i'r ystafell dosbarth.

Datblygiad corfforol

Mae datblygiad corfforol disgybl A yn gynyddol ac yn gyson. Dangoswyd ei ddatblygiad corfforol yn ddyddiol yn y dosbarth a hefyd ar y buarth. Mae ei allu i reoli ei gyrff a meddwl yn strategol am symudiadau yn wych a chanmolwyd am ei gynnydd yn ystod thema'r tymor yma. Yn ystod y thema nesaf byddem yn dilyn rhaglen 'Cornerstones' o dan y thema 'Bownsio'. Yn ystod y thema yma bydd yna lwyth o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau pêl.

Mae fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015) yn gofyn i blentyn gael sgiliau pêl er mwyn gyrraedd deilliant 5. Honnir dylai plentyn deilliant pump 'gallu bownsio pêl ag un llaw a gallent dal pêl â dwy law'. Byddem yn defnyddio peli yn gyson yn y dosbarth yn ogystal â thu hwnt. Bwriadaf gynnwys peli mewn gweithgareddau llythrennedd a rhifedd gyda disgybl A. Disgwylir iddo fwynhau ei waith yn fwy trwy gynnwys elfennau ymarferol. Enghraifft o gêm hoffaf gyflwyno i'r dosbarth yw 'pêl hud' (Adler, 2014). Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau pêl o ddal a thaflu yn ogystal â'u sgiliau action a disgrifio- bwriad y gêm yw disgrifio'r bêl (e.e. trwm) ac yna'n taflu'r bêl i berson arall lle disgwylir iddynt action fel petai'n drwm ac yna'n meddwl am ansoddair newydd cyn taflu'r bêl ymlaen. Dylai'r elfen draws gwricwlaidd o'r gêm yma rhoi profiadau gwerthfawr i'r plant sydd yn hwyl i gymryd rhan ynddi.

Dymunaf ddisgybl A i gyrraedd ystod eang o elfennau deilliant 5 yn ei ddatblygiad corfforol. Mae'n bwysig ei fod yn cael y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau corfforol ymysg gwersi a datblygiad sgiliau eraill fel bod yna ddatblygiad cyson.

Casgliad

Mae'r aseiniad, a fy mhrofiad wrth gasglu data, wedi amlygu pwysigrwydd llais y disgybl wrth gofnodi cyrhaeddiad a chamau ymlaen. Mae'n bwysig iawn bod gan yr athrawes gwybodaeth holistaidd am y plentyn, ei bod hi yn gwybod y disgybl ar lefel cymdeithasol yn ogystal ag yn addysgiadol. Mae'r perthynas rhwng y disgybl a'i athrawes felly yn hynod o bwysig er mwyn gallu cynllunio gwelliant. Mae plentyn yn

dysgu orau pan yn hapus, cyfforddus ac yn mwynhau, a dengys hynny yn nadansoddiad Disgybl A. Cymeraf lais y disgybl yn ffynhonnell sydd â llawer o bwys yn asesiadau o gynnydd. Byddaf yn sicrhau fel athrawes fy mod i yn creu amser i drafod gyda phlant, i roi adborth a derbyn adborth ganddyn nhw am eu cynnydd yn y dosbarth.

Mae'r dull mosaic hefyd wedi dangos i mi pa mor werthfawr yw casglu ystod eang o ddata ar blentyn. Mae'r amrywiaeth o dystiolaeth yn rhoi darlun mwy cyflawn o'r plentyn ac yn gynnwys mwy nag un safbwynt o'i gynnydd. Wrth gynllunio i gynnydd pellach wedyn, mae'r ffocws o amgylch y plentyn yn lle'r canlyniadau neu gyrhaeddiad, sydd yn hanfodol. Fel athrawes, byddai'n sicrhau fy mod i yn ystyried ystod o dystiolaeth am gyrhaeddiad plentyn wrth i mi ei asesu.

Mae'r elfennau ag edrychais arno yn ystod yr ymchwil i gyd yn cyfrannu at y dysgwr cyflawn sydd yn cael ei gynhyrchu yn yr ysgol a thu hwnt. Trwy ystyried pob elfen addysgu yn unigol yn yr aseiniad, rwyf wedi dod i ddeall pwysigrwydd pob un i'r plentyn ac i'w gilydd. Deallaf felly pa mor bwysig ydyw i gael cysondeb yn natblygiad pob un o'r elfennau. Mae gwersi trawsgwricwlaidd lle gellid defnyddio ac ymarfer amrywiaeth o sgiliau o fewn un dasg yn helpu gyda chadw'r cysondeb hwnnw. Mae'n bwysig ein bod ni, fel athrawon yn ystyried yr unigolyn cyflawn wrth gynllunio gwersi, oherwydd mae plentyn sydd yn berchen ar sgiliau eang yn fwy parod i wynebu bywyd go iawn. Byddaf yn addysgu ar sail yr egwyddor 'dysgu o brofiad, dysgu i bwrpas' er mwyn cynhyrchu dysgwyr mwy cyflawn.

Adler, A. (2014) 'Three literacy and movement games your students can play today.' Ar gael: <http://www.massliteracy.org/three-literacy-movement-games-students-can-play-today/> [gwelwyd ar:027/05/18]

Clark, A. and P. Moss (2001) *Listening to Young Children: The MOSAIC Approach*. London: National Children's Bureau/Joseph Rowntree Foundation, 15-50.

Cordes, A. K. (1994) 'I. Theories and Methods for Speech-Language Pathology.' *Journal of Speech, Language, and hearing Research*, vol 37, 264-278.

Kolb, D. A. (1984). *Experiential learning: Experience as the source of learning and development*. Vol. 1, Englewood Cliffs, NJ: Prentice-Hall.

Leopold, Lisa (2012) 'Prewriting Tasks for Auditory, Visual, and Kinesthetic Learners.' *TESL Canada journal*, vol. 29, no 2.

Llywodraeth Cymru (2015) Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Llywodraeth Cymru, Caerdydd, 54-68.

McCombs, B. L. 2012. 'Developing Responsible and Autonomous Learners: A Key to Motivating Students.' American Psychological Association. Ar gael:

[Http://www.apa.org/education/k12/learners.aspx](http://www.apa.org/education/k12/learners.aspx). [gwelwyd ar: 26/05/18]

Notz, P. (2005) 'Secondary Qualitative Analysis of Interviews. A Method Used for Gaining Insight into the Work/ Life Balance of Middle Managers in Germany.' Qualitative Social Research[Online] 6(1). Ar gael: [Www.qualitative-research.net](http://www.qualitative-research.net) [gwelwyd ar: 26/05/18].

Stansell, J.W. (2005) 'The Use of Music for Learning Languages: A Review of the Literature.' University of Illinois at Urbana-Champaign. <http://mste.illinois.edu/courses/ci407su02/> (gwelwyd ar: 27/05/18).

Vygotsky, L.S. et al. (1978) Mind in society: The development of higher psychological processes. Cambridge: Harvard University Press.

Atodiadau

Arsylwi Disgybl A

21/5/18

Arsylwi


- Colli dioldo rdebs yn aml yn ystod y wers.
- *Codi Uaw*
- "Rwyt dwli darllen"

TRAFODAETH AR 3:


- Rhestn llyfrau mae e wedi darllen
- Adrodd digwyddiadau stori 'Dŵr Dŵr Dŵr'.
(Nid oedd e wedi cael y llyfr yma am sbectol bach).
- Yn amlwg mae e wedi mwynhau'.

9 Ble mae'r deinosor?


en y bocs o dan y bocs wrth ochr y bocs o flaen y bocs



Mae'r deinosor wrth ochr y bocs.



Mae'r deinosor anrann y bocs.



wrth ochr
Mae'r deinosor ar b y bocs.



Mae'r deinosor o dan y bocs.



Mae'r deinosor o flaen y bocs.

Oa i'awn!

(Adborth)

Arsylwi

8/5/18

- Gwaith pen oda!
- Angen yr adnoddau concît i weld y mathemateg.
- Wedi defnyddio'r darnau anian i weld y cyfansymiau.
 - Defnyddol o'i delwyo i gyfrifi hefyd.

12c

9c

11c

16c

18c

20c

13c

20c

Gwneud y cyfanswm cywir Rhwch dic yn erbyn y darnau arian byddech chi'n eu defnyddio i gael y cyfanswm a ddangosir yn y blwch.

Ch

Gwaith cyfrif gwyb!

82

Blwydd

Uned

11


21/5/18

Amcangyfrif eitemau yn y bocs

1) Amcangyfrif




Cyfanswm




godm

2) Amcangyfrif




Cyfanswm




dt-god

3) Amcangyfrif




Cyfanswm




godm

4) Amcangyfrif



Cyfanswm



godm

5) Amcangyfrif



Cyfanswm



dt-god

Amcan: Gallu
amcangyfrif yn
rhesymol heb gysni.



Adborth

Arsylwi Ymarfer corff

Arsylwi

23/5/18

- Rheoli corff yn dda.
- Symud yn dda mewn pâr.
- Cryf ac yn cadarnhaol.
- Deall sut gallai ef plygu.
- Cyfathrebu yn dda oysda phartner.
 - Cydymdeimlo â g eraill
 - Meddwl tu allan o'r bocs
 - Meddwl am gyffwrddus - mydd eraill.



Caniatâd

RE: Primary PGCE student assignment: permission and confirmation that work has been undertaken in school for assignment 'School Development and Pupil Progress', Summer 2018.

Dear class/senior mentor,

For the university module named above, trainees are required to identify one learner within the class in which they are based and, over the course of the Professional Teaching Experience, explore their learning in detail. The evidence that they need to gather could include:

- observation;
- asking the learner to identify places/things that help him/her learning;
- discussing what helps the pupil learn and how they feel about learning with the pupil and/or teacher;
- collecting samples of work which might show something about the learner's progress and development.

They are asked to focus on knowledge, attitude and skills in language, mathematics, wellbeing and at least two other areas of the curriculum to gain an holistic picture of the child. They then suggest the next steps for the learner, and indicate how these will be achieved. Trainees are expected to undertake this work independently wherever possible, and have been given ethical guidelines to follow (although undertaking the work above would be in line with typical classroom practice). The trainees have been asked not to reveal the identity of the learner or the school within their assignment. Students have been asked to:

1. Seek permission for this work (by consulting with the class teacher and learner)
2. Provide verification that the work has taken place.

We would therefore be grateful if you could confirm that permission has been sought and that tasks have been undertaken by signing below:

STUDENT NAME (PLEASE PRINT): _____

SCHOOL NAME (PLEASE PRINT): _____

SENIOR MENTOR/CLASS MENTOR NAME (PLEASE PRINT):

Karen Griffiths (mentor)

SENIOR MENTOR/CLASS MENTOR NAME (PLEASE SIGN):

K Griffiths (mentor)

If you have any queries regarding this, please contact the Programme Lead Helen Lewis : h.e.lewis@uwtsd.ac.uk

Many thanks in advance,

Helen Lewis

Helen Lewis, 5.3.18

SIGNED COPY TO BE INCLUDED IN APPENDIX OF ASSIGNMENT